

Ysgol I D Hooson **Polisi gwisg ysgol / School uniform policy**

Polisi Ysgol I D Hooson yw fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pan yn mynychu'r ysgol neu pan yn mynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
- ymarferol, taclus a thwt;
- gwneud i bod plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- cael i'w ystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol sydd hefyd yn werth da am arian;

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at cyfle cyfartal a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth.

Os ydych yn ansicr, yna dylech gysylltu a Swyddfa'r ysgol cyn prynu gwisg.

Meithrin

Rydym yn annog rhieni neu ofalwyr i brynu gwisg ysgol hyd oed pan fydd plentyn yn yr oed meithrin. Mae'r wisg fel a ganlyn;

- trowsus / sgert 'navy' glas tywyll ;([hyd penguin](#))
- esgidiau addas du
- crys polo 'navy' glas tywyll
- crys chwys glas(Royal)

Blwyddyn Derbyn, Blwyddyn 1 & 2

Pob plentyn

trowsus 'navy' / sgert 'navy'

crys polo 'navy'

siwmpwr ysgol neu gardigan ysgol las(Royal)

esgidiau du

Yn ystod tymor yr haf gall merched wisgo ffrog haf a sandalau pe dymunir.

Gall y bechgyn wisgo trowsus byr.

Blwyddyn 3,4,5 & 6

Pob plentyn

trowsus 'navy' / sgert ddu neu lwyd

crys polo 'navy'

siwmpwr ysgol neu gardigan ysgol glas(Royal)

esgidiau du

Yn ystod tymor yr haf gall merched wisgo ffrog haf glas a sandalau pe dymunir.

Gall y bechgyn wisgo trowsus byr(navy).

Addysg Gorfforol

siorts du
crys T / polo glas ysgol(navy)
plimsolls du
bag Add. G.

Gellir prynu gwisg ysgol o Ram Leisure. Yn ogystal a dillad, mae capiau, bagiau gwaith cartref a bagiau Addysg Gorfforol ar gael.

Enwau ar ddillad / dillad coll

Rydym yn annog y rhieni, gofawyr a phlant i sicrhau fod pob dilledyn wedi ei labelu yn glir gyda enw'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys esgidiau a plimsolls adysg gorfforol. Bydd pob dilledyn sydd ddim yn cael ei hawlio ar ddiwedd pob hanner tymor yn mynd i fanc dillad cyfagos neu yn cael ei ail-gylchu o fewn yr ysgol.

Esgidiau

Rydym yn annog y plant i wisgo esgidiau du i'r ysgol. Credwn fod hyn yn gwneud i'r disgyblion edrych yn daclus ar gyfer mynychu'r ysgol. Dylai fod yr esgidiau yn ddiogel ac yn addas ichwarae yn ddiogel tu allan ar fuarth neu gae yr ysgol(tymor yr haf). Ni ddylai'r un plentyn wisgo esgidiau gyda sodlau uchel(high heels)

Gwalltiau ac addurniadau

Nid yw lliwio gwallt yn rhan o wisg Ysgol I D Hooson. Nid sioe ffasiynau yw'r ysgol chwaith. Gofynir i rieni a gofawyr wneud pob ymdrech i barchu'r rheol hon. Dim ond 'studs' sydd yn cael eu caniatáu o ran clustlysau. Ni ddylid gwisgo unrhyw glustlysau ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Trafodir unrhyw steil gwallt anarferol gyda rhieni pan fo'n berthnasol i wneud hyn.

Fel ysgol, mae gennym yr hawl i benderfynu beth sydd yn dderbyniol, ac sydd ddim yn dderbyniol i'w wisgo i ddod i'r ysgol.

Os oes rhesymau crefyddol yn gofyn i blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.

Cytunwyd y polisi ar _____

Arwyddwyd: _____ (Cadeirydd y Corff Llywodraethol)

Arwyddwyd : _____ (Pennaeth)

Dyddiad adolygu: _____

